- (6) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol.
- (7) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru hysbysu awdurdod gwella Cymreig—
 - (a) os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu cynnal arolygiad o'r awdurdod o dan is-adran (1); neu
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad o'r awdurdod o dan is-adran (4).
- (8) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r swyddogaethau y bydd yr arolygiad yn ymwneud â hwy.
- (9) Wrth gynnal arolygiad ac, yn achos arolygiad o dan is-adran (1), wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.
- (10) At ddibenion y Rhan hon, cyfeirir at arolygiad o dan yr adran hon fel arolygiad arbennig.
- (11) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at swyddogaethau awdurdod yn cynnwys trefniadau sy'n cael eu gwneud i hwyluso neu gefnogi'r modd yr arferir y swyddogaethau hynny.

Addasiadau (ddim yn newid testun)

C1 [A. 21](#) cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan [2004 c. 21](#), [a. 24\(4\)\(5\)](#) (mewnsoodwyd gan [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009](#) (nawm 2), [a. 53\(2\)](#), [Atod. 1 para. 33](#); [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), [Atod. 2](#))

Gwybodaeth Cychwyn

I50 [A. 21](#) ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)

I51 [A. 21](#) mewn grym ar [1.4.2010](#) gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), [Atod. 2](#)

22 Adroddiadau am arolygiadau arbennig

- (1) Pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal arolygiad arbennig, rhaid i'r Archwilydd ddyroddi adroddiad.
- (2) O ran adroddiad—
 - (a) rhaid iddo grybwyll unrhyw fater y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu amdano, o ganlyniad i'r arolygiad, fod yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon neu ei bod yn bosibl i'r awdurdod fethu yn y cyswllt hwynnw, a
 - (b) caiff argymhell, os yw'n crybwyll mater o dan baragraff (a), fod Gweinidogion Cymru yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau, sef—
 - (i) rhoi cymorth i'r awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28;
 - (ii) rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (3) O ran yr Archwilydd Cyffredinol—
- rheid iddo anfon copi o adroddiad at yr awdurdod o dan sylw ac at Weinidogion Cymru;
 - os gwneir argymhelliad o dan is-adran (2)(b) mewn adroddiad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol drefnu i'r argymhelliad gael ei gyhoeddi; a
 - caiff gyhoeddi adroddiad ac unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad ag adroddiad.
- (4) Os bydd adroddiad yn datgan bod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu, o ganlyniad i arolygiad, fod awdurdod gwella Cymreig yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon, rhaid i'r cynllun gwella nesaf a baratoir gan yr awdurdod gofnodi—
- y ffaith honno, a
 - unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd, neu sydd i'w cymryd, gan yr awdurdod o ganlyniad i'r adroddiad.
- (5) Os bydd adroddiad yn ymwneud i unrhyw raddau â gweinyddiaeth budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor, a bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gweld yn dda i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Addasiadau (ddim yn newid testun)

- C2** [A. 22](#) cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan 2004 c. 21, a. 24(4)(5) (mewnosodwyd gan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (nawm 2), a. 53(2), **Atod. 1 para. 33**; O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), Atod. 2)

Gwybodaeth Cychwyn

- I52** [A. 22](#) ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)
- I53** [A. 22](#) mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), ergl. 3(1), **Atod. 2**

23 Cydlynu archwiliad etc

- Rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sylw i'r angen am gydlynu wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio.
- Ystyr “swyddogaethau rheoleiddio” yw swyddogaethau perthnasol y rheoleiddwyr perthnasol a swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan is-adran (7).
- Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, ar ôl ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig sy'n nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r dyddiadau neu'r amserau yn y flwyddyn honno pryd y dylai—
 - rheoleiddwyr perthnasol arfer eu swyddogaethau perthnasol mewn cysylltiad ag awdurdod; a
 - yr Archwilydd Cyffredinol arfer y swyddogaethau sydd wedi eu nodi yn is-adran (7) mewn cysylltiad ag awdurdod.
- Caniateir i'r ddyletswydd o dan is-adran (3) gael ei chyflawni drwy lunio amserlen sy'n ymwneud â mwy nag un flwyddyn ariannol.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (5) Mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig, rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol, ac i'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer y swyddogaethau sydd wedi eu nodi yn is-adran (7), gymryd pob cam rhesymol i lynu wrth yr amserlen a luniwyd mewn perthynas â'r awdurdod o dan is-adran (3).
- (6) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynorthwyo'r rheoleiddwyr perthnasol i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan is-adrannau (1) a (5).
- (7) Swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru y cyfeirir atynt yn is-adran (2) yw swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan—
 - (a) adrannau 13 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; a
 - (b) adrannau 17 i 19 o'r Mesur hwn.

Gwybodaeth Cychwyn

I54 A. 23 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

I55 A. 23 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

24 Adroddiadau gwella blynyddol

- (1) Mewn perthynas â phob awdurdod gwella Cymreig, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad (“adroddiad gwella blynyddol”) sy'n crynhoi neu'n atgynhyrchu'r adroddiadau sydd wedi eu disgrifio yn is-adran (2).
- (2) Yr adroddiadau yw—
 - (a) pob adroddiad a ddyroddir mewn cysylltiad â'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol honno o dan adran 19;
 - (b) unrhyw adroddiad o arolygiad arbennig o awdurdod a ddyroddir o dan adran 22 yn ystod y flwyddyn ariannol honno.
- (3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—
 - (a) cyhoeddi adroddiad gwella blynyddol pob awdurdod gwella Cymreig;
 - (b) pwysu a mesur, yng ngoleuni adroddiad gwella blynyddol awdurdod, a ddylid—
 - (i) argymhell i reoleiddiwr perthnasol ynghylch sut y dylai'r rheoleiddiwr arfer swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod;
 - (ii) argymhell i Weinidogion Cymru eu bod yn rhoi cymorth i'r awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28;
 - (iii) argymhell i Weinidogion Cymru eu bod yn rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod o dan adran 29;
 - (iv) arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r awdurdod;
 - (c) cyflwyno unrhyw argymhelliad sydd wedi ei grybwyll ym mharagraff (b)(i) i (iii) ac y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y dylid ei gyflwyno.

Gwybodaeth Cychwyn

I56 A. 24 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

I57 A. 24 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

I58 A. 24(2)(a) mewn grym ar 1.4.2011 gan O.S. 2009/3272, ergl. 4, Atod. 3

25 Datganiad o arfer

- (1) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi datganiad o arfer sy'n disgrifio'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arfer y swyddogaethau a ddisgrifir yn is-adran (4).
- (2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—
 - (a) adolygu'r datganiad; a
 - (b) os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol ar ôl adolygiad, paratoi datganiad o arfer diwygiedig.
- (3) Rhaid i'r datganiad o arfer gydweddu â'r egwyddorion a ddisgrifir yn is-adran (5).
- (4) Y swyddogaethau yw'r rhai a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol gan—
 - (a) adran 17 (gwybodaeth am welliannau a chynllunio gwelliannau: archwilio);
 - (b) adran 18 (asesiadau gwella);
 - (c) adran 19 (adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu);
 - (d) adran 23 (cydlynu archwiliad etc);
 - (e) adran 24 (adroddiadau gwella blynyddol).
- (5) Yr egwyddorion yw—
 - (a) y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn gyson yn y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei swyddogaethau ymhlith gwahanol awdurdodau gwella Cymreig;
 - (b) y dylai personau a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 gyflawni eu cyfrifoldebau'n annibynnol;
 - (c) ei bod yn ddymunol bod swyddogaethau perthnasol y rheoleiddwyr perthnasol a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a ddisgrifir yn adran 23(7) yn cael eu harfer yn gymesur er mwyn peidio â gosod baich afresymol ar awdurdodau gwella Cymreig;
 - (d) y dylai'r swyddogaethau yn is-adran (4) gael eu harfer gyda golwg ar gynorthwyo awdurdodau gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.
- (6) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon copi o ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig a baratowyd o dan is-adran (1) at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.
- (7) Os caiff y datganiad neu'r datganiad diwygiedig ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r datganiad neu'r datganiad diwygiedig.
- (8) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sylw i'r datganiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan is-adran (7) wrth arfer y swyddogaethau a ddisgrifiwyd yn is-adran (4).

Gwybodaeth Cychwyn

I59 A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler a. 53(2)

I60 A. 25 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, ergl. 2(j)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

26 Pwerau a dyletswyddau arolygwyr

- (1) Mae gan arolygydd hawl ar bob adeg resymol—
 - (a) i fynd i mewn i unrhyw fangre sydd gan awdurdod gwella Cymreig, a
 - (b) i weld unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r awdurdod ac sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r arolygydd at ddibenion yr arolygiad, yr archwiliad neu'r asesiad.
- (2) Mae'r hawl a roddir gan is-adran (1) yn cynnwys hawl i arolygu neu gopïo'r ddogfen neu i fynd â hi oddi yno.
- (3) Caiff arolygydd—
 - (a) ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dal unrhyw ddogfen o'r fath neu sy'n atebol amdani roi unrhyw wybodaeth neu esboniad i'r arolygydd sy'n angenrheidiol yn ei farn ef, a
 - (b) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddod yn bersonol ger ei fron i roi'r wybodaeth neu'r esboniad neu i ddangos y ddogfen.
- (4) Mewn perthynas â dogfen a gedwir ar ffurf electronig, mae'r pŵer yn is-adran (3)(b) i'w gwneud yn ofynnol i berson ddangos dogfen yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol iddi gael ei dangos ar ffurf sy'n ddarllenadwy ac y gellir mynd â hi oddi yno.
- (5) Mewn cysylltiad ag arolygu dogfen o'r fath, caiff arolygydd—
 - (a) sicrhau mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig y mae'n credu eu bod yn cael neu wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r ddogfen, ac arolygu a gwirio eu gweithrediad;
 - (b) ei gwneud yn ofynnol i berson o fewn is-adran (6) roi unrhyw gymorth rhesymol y bydd ar yr arolygydd ei angen at y diben hwnnw.
- (6) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—
 - (a) os ef yw'r person sy'n defnyddio neu a ddefnyddiodd y cyfrifiadur, neu os defnyddir neu defnyddiwyd y cyfrifiadur ar ei ran; neu
 - (b) os yw'n berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu.
- (7) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi i arolygydd bob cyfleuster a phob gwybodaeth y mae ar yr arolygydd angen rhesymol ei gael neu ei chael at ddibenion yr arolygiad neu'r asesiad.
- (8) Rhaid i arolygydd—
 - (a) oni bai bod yr amgylchiadau, ym marn yr arolygydd, yn eithriadol roi tri diwrnod clir o rybudd am unrhyw ofyniad o dan yr adran hon, a
 - (b) os gofynnir i'r arolygydd wneud hynny, dangos dogfennau sy'n nodi bod yr arolygydd yn berson ag awdurdod i osod gofynion o dan yr adran hon.
- (9) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn atal unrhyw bŵer a roddir gan yr adran hon rhag cael ei arfer neu sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad gan arolygydd o dan yr adran hon yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (10) Gellir adennill unrhyw dreuliau yr â arolygydd iddynt mewn achos cyfreithiol am dramgwydd o dan is-adran (9) yr honnir ei fod wedi'i gyflawni mewn perthynas ag arolygiad o awdurdod gwella Cymreig wrth yr awdurdod hwnnw, i'r graddau nad oes modd eu hadennill o unrhyw ffynhonnell arall.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (11) Yn yr adran hon ystyr “arolygydd” yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, aelod o staff yr Archwilydd Cyffredinol neu berson sy'n darparu gwasanaethau i'r Archwilydd Cyffredinol ac sy'n cynnal archwiliad o dan adran 17, asesiad o dan adran 18 neu arolygiad arbennig.

Addasiadau (ddim yn newid testun)

- C3** [A. 26](#) cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan 2004 c. 21, a. 24(4)(5) (mewnsoodwyd gan [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009 \(nawm 2\)](#), a. 53(2), **Atod. 1 para. 33**; O.S. 2009/3272, [ergl. 3\(1\)](#), **Atod. 2**)

Gwybodaeth Cychwyn

- I61** [A. 26](#) ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**
I62 [A. 26](#) mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), **Atod. 2**

27 Ffioedd

- (1) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd mewn cysylltiad â'r canlynol—
- archwiliadau a gynhelir o dan adran 17;
 - asesiadau a gynhelir o dan adran 18;
 - arolygiadau arbennig.
- (2) Caniateir i raddfeydd gwahanol gael eu rhagnodi mewn cysylltiad â'r gweithgareddau gwahanol sydd wedi eu disgrifio yn is-adran (1), gwahanol fathau o'r un gweithgaredd a gwahanol fathau o awdurdod gwella Cymreig.
- (3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4), rhaid i awdurdod sy'n cael ei archwilio, ei asesu neu ei arolygu fel sydd wedi ei grybwyll yn is-adran (1), dalu i Archwilydd Cyffredinol Cymru y ffi sy'n daladwy o dan y raddfa briodol.
- (4) Os yw'n ymddangos i'r Archwilydd Cyffredinol fod y gwaith a oedd ynghlwm wrth archwiliad, asesiad neu arolygiad penodol yn sylweddol fwy neu'n sylweddol llai na'r hyn a ragwelwyd yn ôl y raddfa briodol, caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru godi ffi sy'n fwy neu'n llai na'r hyn y cyfeiriwyd ato yn is-adran (3).
- (5) Cyn rhagnodi graddfa ffioedd o dan yr adran hon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r canlynol—
- Gweinidogion Cymru, a
 - personau y mae'n ymddangos i'r Archwilydd Cyffredinol eu bod yn cynrychioli awdurdodau y caniateir eu harchwilio, eu hasesu neu eu harolygu fel sydd wedi ei grybwyll yn is-adran (1).
- (6) Bydd adran 21 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd a ragnodir gan y Cynulliad) yn cael effaith mewn perthynas â graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan yr adran hon yn yr un modd ag y mae'n cael effaith mewn perthynas â graddfa neu raddfeydd a ragnodir o dan adran 20(1) o'r Ddeddf honno, ond gyda'r addasiadau canlynol—
- yn is-adrannau (3) a (4) o adran 21, bod “section 27(3) and (4) of the Local Government (Wales) Measure 2009” wedi ei roi yn lle “section 20(4) and (5)”;
 - bod is-adran (5)(c) wedi ei hepgor.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Addasiadau (ddim yn newid testun)

- C4** [A. 27](#) cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.4.2010) gan 2004 c. 21, a. 24(4)(5) (mewnosodwyd gan [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009 \(nawm 2\)](#), a. 53(2), **Atod. 1 para. 33**; [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), **Atod. 2**)

Gwybodaeth Cychwyn

- I63** [A. 27](#) ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)
I64 [A. 27](#) mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), **Atod. 2**

Gweinidogion Cymru

28 Gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig

- (1) Os ydynt wedi cydymffurfio ag is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent o'r farn ei fod yn debyg o gynorthwyo awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.
- (2) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer—
 - (a) i ymrwymo i drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw berson;
 - (b) i gydweithredu gydag unrhyw berson, neu i hwyluso neu gydlynu gweithgareddau'r person hwnnw;
 - (c) i arfer ar ran unrhyw berson unrhyw un o swyddogaethau'r person hwnnw;
 - (d) i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson.
- (3) Onid ydynt yn arfer y pŵer o dan is-adran (1) mewn ymateb i gais a wneir o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru, cyn arfer y pŵer hwnnw, ymgynghori â—
 - (a) yr awdurdod gwella Cymreig neu'r awdurdodau gwella Cymreig y maent yn bwriadu ei gynorthwyo neu eu cynorthwyo wrth arfer y pŵer; a
 - (b) y personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru mai hwy yw'r prif randdeiliaid yr effeithir arnynt wrth arfer y pŵer y cyfeirir ato yn is-adran (1).
- (4) Os yw awdurdod gwella Cymreig yn gofyn iddynt wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bwysu a mesur a ddylent arfer eu pŵer o dan is-adran (1).

Gwybodaeth Cychwyn

- I65** [A. 28](#) ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)
I66 [A. 28](#) mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), **Atod. 2**

29 Gweinidogion Cymru: pwerau cyfarwyddo etc

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys o ran awdurdod gwella Cymreig os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni ynghylch unrhyw un o'r canlynol—
 - (a) bod—
 - (i) yr awdurdod wedi bod yn wrthrych camau gan Weinidogion Cymru i arfer eu pŵer o dan adran 28 er mwyn cynorthwyo'r awdurdod i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Rhan hon; a

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (ii) yr awdurdod yn methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Rhan hon a bod y methiant hwnnw, neu'r methiant tebygol, yn ymwneud â gofyniad sydd wedi ei grybwyll yn is-baragraff (i);
 - (b) bod—
 - (i) yr awdurdod yn methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Rhan hon; a
 - (ii) bod brys y sefyllfa neu ganlyniadau posibl y methiant, neu'r methiant tebygol, yn golygu ei bod yn briodol arfer pŵer o dan yr adran hon er gwaethaf y ffaith nad yw Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pŵer o dan adran 28 er mwyn cynorthwyo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofynion hynny; neu
 - (c) bod—
 - (i) yr awdurdod yn methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Rhan hon;
 - (ii) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu eu bod am arfer eu pŵer o dan adran 28 er mwyn cynorthwyo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofynion hynny; a
 - (iii) y pŵer o dan adran 28 yn methu â chael ei arfer yn effeithiol oherwydd bod yr awdurdod wedi methu â chydweithredu â Gweinidogion Cymru.
- (2) Pan fo'r adran hon yn gymwys o ran awdurdod gwella Cymreig, caiff Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo i wneud y cyfan neu unrhyw rai o'r canlynol—
 - (a) paratoi neu ddiwygio cynllun gwella neu ddilyn gweithdrefnau penodedig mewn perthynas â chynllun o'r fath;
 - (b) cynnal adolygiad o'r modd y mae'n arfer swyddogaethau penodedig;
 - (c) ymrwymo i drefniadau cydlafurio penodedig gydag awdurdod gwella Cymreig arall;
 - (d) gosod amcanion gwella penodedig iddo'i hun o dan adran 3.
- (3) Pan fo'r adran hon yn gymwys o ran awdurdod gwella Cymreig, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal i'r modd y mae swyddogaethau penodol awdurdod yn cael eu harfer.
- (4) Bydd is-adrannau (2) i (5) o adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ymchwiliadau) yn gymwys o ran ymchwiliad y mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo ei gynnal o dan yr adran hon yn yr un modd ag y mae'r is-adrannau hynny'n gymwys o ran ymchwiliad y perir iddo gael ei gynnal o dan yr adran honno.
- (5) Pan fo'r adran hon yn gymwys o ran awdurdod gwella Cymreig, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i gymryd unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Rhan hon.
- (6) Pan fo'r adran hon yn gymwys o ran awdurdod gwella Cymreig, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo—
 - (a) bod rhaid i swyddogaeth benodedig sydd gan yr awdurdod gael ei harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt am gyfnod sydd wedi ei bennu yn y cyfarwyddyd, neu cyhyd ag y bydd Gweinidogion Cymru yn credu ei fod yn briodol; a

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i deddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (b) bod rhaid i'r awdurdod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt mewn perthynas ag arfer y swyddogaeth honno, a bod rhaid iddo roi unrhyw gymorth y bydd ar Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt ei angen er mwyn arfer y swyddogaeth.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth—
- (a) sy'n ymwneud â deddfiad sy'n rhoi swyddogaeth iddynt mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau awdurdod gwella Cymreig; a
- (b) y maent yn credu ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion achosion lle maent yn gwneud cyfarwyddyd o dan is-adran (6)(a).
- (8) Caiff rheoliadau o dan is-adran (7), mewn perthynas â'r achosion sydd wedi eu crybwyll yn is-adran (6)(b)—
- (a) datgymhwyso neu addasu deddfiad o'r math sydd wedi ei grybwyll yn is-adran (7)(a);
- (b) cael effaith sy'n debyg i effaith deddfiad o'r math hwnnw.
- (9) Bydd cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon yn gyfarwyddyd—
- (a) y gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru;
- (b) y gall Gweinidogion Cymru ei gyhoeddi yn ei gyfarwydd neu gyhoeddi rhan ohono.

Gwybodaeth Cychwyn

I67 A. 29 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)

I68 A. 29 mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), [Atod. 2](#)

30 Pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i awdurdod gwella Cymreig nad yw adran 29 yn gymwys iddo.
- (2) Ar ôl iddynt ymgynghori'n gyntaf â'r awdurdod, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i ymrwymo i drefniadau cydlafurio penodedig gydag awdurdod gwella Cymreig y mae adran 29 yn gymwys iddo.
- (3) Bydd cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon yn gyfarwyddyd y gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru.

Gwybodaeth Cychwyn

I69 A. 30 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)

I70 A. 30 mewn grym ar 1.4.2010 gan [O.S. 2009/3272](#), [ergl. 3\(1\)](#), [Atod. 2](#)

31 Pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd

- (1) Os bydd Gweinidogion Cymru yn meddwl bod deddfiad yn atal neu'n rhwystro awdurdodau gwella Cymreig rhag cydymffurfio â gofynion y Rhan hon, caniateir iddynt drwy orchymyn wneud darpariaeth sy'n addasu neu'n eithrio'r modd y mae'r deddfiad yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (a) pob awdurdod gwella Cymreig;
 - (b) awdurdodau gwella Cymreig penodol; neu
 - (c) disgrifiadau penodol o awdurdod gwella Cymreig.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth sy'n rhoi—
- (a) i bob awdurdod gwella Cymreig;
 - (b) i awdurdodau gwella Cymreig penodol; neu
 - (c) i ddisgrifiadau penodol o awdurdod gwella Cymreig,
- unrhyw bŵer y maent yn credu ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus i ganiatáu neu hwyluso cydymffurfedd â gofynion y Rhan hon.
- (3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—
- (a) gosod amodau ar y modd y mae unrhyw bŵer a roddir gan y gorchymyn (gan gynnwys amodau am ymgynghori neu gymeradwyo) yn cael ei arfer;
 - (b) diwygio deddfiad.
- (4) Wrth arfer pŵer a roddir o dan is-adran (2), rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.
- (5) Yn yr adran hon mae “deddfiad” yn cynnwys is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21 o Ddeddf Ddehongli 1978).

Gwybodaeth Cychwyn

I71 A. 31 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)

I72 A. 31 mewn grym ar 17.7.2009 gan [O.S. 2009/1796](#), [ergl. 2\(k\)](#)

32 Gorchymynion o dan adran 31: y weithdrefn

- (1) Cyn bod Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 31, rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau yr effeithir arnynt gan gynigion Gweinidogion Cymru.
- (2) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori o dan is-adran (1), yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 31, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen sy'n esbonio eu cynigion ac, yn benodol—
 - (a) sy'n gosod eu cynigion ar ffurf gorchymyn drafft; a
 - (b) sy'n rhoi manylion yr ymgynghori o dan is-adran (1).
- (3) Pan fo dogfen sy'n ymwneud â chynigion yn cael ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2), rhaid i ddrafft o orchymyn o dan adran 31 i roi effaith i'r cynigion (gydag addasiadau neu hebddynt) beidio â chael ei osod gerbron y Cynulliad tan ar ôl i'r cyfnod o drigain niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ei gosod ddirwyn i ben.
- (4) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (3), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.
- (5) Wrth baratoi gorchymyn drafft o dan adran 31 rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (3).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (6) Ynghyd â gorchymyn drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 50(6), rhaid bod datganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion—
- unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (5), a
 - unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2) uchod.
- (7) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gymwys i orchymyn o dan adran 31 sydd wedi'i wneud yn unswydd at y diben sydd wedi ei grybwyll yn adran 50(7).

Gwybodaeth Cychwyn

- I73** A. 32 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**
I74 A. 32 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(l)**

Amrywiol ac atodol

33 Rhannu gwybodaeth

- At ddibenion yr adran hon, ystyr y “grŵp rhannu gwybodaeth” yw'r rheoleiddwyr perthnasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Caiff aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth ofyn, at ddibenion arfer ei swyddogaethau perthnasol, i aelod arall o'r grŵp ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau penodedig iddo.
- Rhaid i aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth gydymffurfio â chais a wneir o dan is-adran (2) i'r graddau—
 - y mae'r cais yn ymwneud â gwybodaeth a gafodd yr aelod, neu ddogfennau a ddangoswyd i'r aelod hwnnw, wrth iddo arfer ei swyddogaethau perthnasol; a
 - y mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.
- Y canlynol yw swyddogaethau perthnasol aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth—
 - yn achos rheoleiddiwr perthnasol, ei swyddogaethau perthnasol o dan adran 16;
 - yn achos Archwilydd Cyffredinol Cymru, y swyddogaethau sydd wedi'u crybwyll yn adran 23(7).

Gwybodaeth Cychwyn

- I75** A. 33 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**
I76 A. 33 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, **ergl. 3(1), Atod. 2**

34 Y modd y mae gwybodaeth i'w defnyddio gan reoleiddwyr

Caiff rheoleiddiwr perthnasol ddefnyddio unrhyw wybodaeth y mae'n ei chael, neu ddogfennau a ddangoswyd i'r rheoleiddiwr, wrth arfer unrhyw swyddogaeth berthnasol at ddibenion swyddogaethau'r rheoleiddiwr o dan y Mesur hwn.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I77 A. 34 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

I78 A. 34 mewn grym ar 1.4.2010 gan **O.S. 2009/3272**, ergl. 3(1), **Atod. 2**

35 Rhan 1: dehongli

(1) At ddibenion y Rhan hon—

mae i'r ymadrodd “arolygiad arbennig” (“*special inspection*”) yr ystyr a roddwyd iddo gan adran 21;

mae i'r ymadrodd “awdurdod gwella Cymreig” (“*Welsh improvement authority*”) yr ystyr a roddwyd iddo gan adran 1;

mae i'r ymadrodd “awdurdod tân ac achub Cymreig” (“*Welsh fire and rescue authority*”) yr ystyr a roddwyd iddo gan adran 1(c);

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr “cynllun gwella” (“*improvement plan*”) yw'r cynllun y cyfeiriwyd ato yn adran 15(6);

mae i'r ymadrodd “pwerau cydlafurio” (“*powers of collaboration*”) yr ystyr a roddir iddo gan adran 11(1);

ystyr “rheoleiddiwr perthnasol” (“*relevant regulator*”) yw person a grybwyllwyd yn adran 16(2);

ystyr “swyddogaethau perthnasol” (“*relevant functions*”), mewn perthynas â rheoleiddiwr perthnasol, yw'r swyddogaethau a bennwyd mewn cysylltiad â'r rheoleiddiwr yn adran 16(2);

ystyr “trefniadau cydlafurio” (“*collaboration arrangements*”) yw gweithgaredd a gyflawnir wrth arfer pwerau cydlafurio awdurdod gwella Cymreig.

(2) At ddibenion y Rhan hon, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriad at awdurdod gwella Cymreig yn arfer swyddogaeth yn cynnwys cyfeiriad at gyflawni gweithredoedd cysylltiedig (megis gwneud trefniadau gweinyddol).

Gwybodaeth Cychwyn

I79 A. 35 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

I80 A. 35 mewn grym ar 17.7.2009 gan **O.S. 2009/1796**, ergl. **2(m)**

36 Cyllid

(1) Mae adran 33 o Deddf Llywodraeth Leol 1999 (cyllid) wedi'i diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3)—

(a) rhowch “Welsh Ministers” yn lle “National Assembly for Wales”;

(b) ar ddiwedd paragraff (b), ychwanegwch “or the Local Government (Wales) Measure 2009”.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

- I81** A. 36 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**
I82 A. 36 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(n)**

RHAN 2

STRATEGAETHAU CYMUNEDOL A CHYNLLUNIO CYMUNEDOL

Cynllunio cymunedol

37 Cynllunio cymunedol

- (1) Rhaid i awdurdod lleol—
 - (a) cychwyn; a
 - (b) wedi iddo wneud hynny, gynnal, hwyluso a chymryd rhan mewn cynllunio cymunedol ar gyfer ei ardal.
- (2) Mae cynllunio cymunedol ar gyfer ardal awdurdod lleol yn broses y mae'r awdurdod a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn ei defnyddio i wneud y canlynol—
 - (a) nodi amcanion hirdymor ar gyfer gwella—
 - (i) llesiant cymdeithasol yr ardal;
 - (ii) llesiant economaidd yr ardal; a
 - (iii) llesiant amgylcheddol yr ardal;
 - (b) nodi amcanion hirdymor mewn perthynas â'r ardal i gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig; a
 - (c) nodi'r camau sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol er mwyn cyrraedd yr amcanion a nodwyd o dan baragraffau (a) a (b).
- (3) Rhaid i bob partner cynllunio cymunedol awdurdod lleol—
 - (a) cymryd rhan yn y broses o gynllunio cymunedol ar gyfer ardal yr awdurdod i'r graddau y mae'r cynllunio hwnnw yn gysylltiedig â swyddogaethau'r partner; a
 - (b) cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1).
- (4) At ddibenion yr adran hon mae cyfeiriad at gam sydd i'w chyflawni neu swyddogaeth sydd i'w harfer gan awdurdod lleol neu un o'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn gyfeiriad at gam neu swyddogaeth sydd o fewn pwerau'r awdurdod neu'r partner.

Gwybodaeth Cychwyn

- I83** A. 37 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**
I84 A. 37 mewn grym ar 1.1.2010 gan O.S. 2009/3272, **ergl. 2, Atod. 1**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

38 Ystyr “partneriaid cynllunio cymunedol”

- (1) At ddibenion y Rhan hon, y cyrff canlynol yw partneriaid cynllunio cymunedol awdurdod lleol—
 - (a) cyngor cymuned ar gyfer cymuned y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - (b) awdurdod tân ac achub Cymreig sydd wedi'i gyfansoddi ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - (c) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - (d) Ymddiriedolaeth GIG sydd wedi'i phennu mewn perthynas ag ardal yr awdurdod drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;
 - (e) awdurdod Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran o'i ardal yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - (f) awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - (g) prif gwnstabl yr Heddlu ar gyfer ardal heddlu sydd wedi ei grybwyll ym mharagraff (f);
- (2) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—
 - (a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (1);
 - (b) ychwanegu paragraffau ychwanegol at yr is-adran honno;
 - (c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag arfer eu pŵer o dan is-adran (2)—
 - (a) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn is-adran (1) nad oes ganddo swyddogaethau cyhoeddus eu natur;
 - (b) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn yr is-adran honno onid ydynt wedi ymgynghori â'r canlynol—
 - (i) pan fônt yn bwriadu cynnwys person, y person hwnnw;
 - (ii) unrhyw gynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol;
 - (iii) unrhyw gynrychiolwyr partneriaid cynllunio cymunedol y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.
- (4) Os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan is-adran (2) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn is-adran (1) y mae ganddo swyddogaethau cyhoeddus a phreifat eu natur, dim ond mewn perthynas â'r swyddogaethau cyhoeddus eu natur y cânt gynnwys y person hwnnw, neu ddarparu ei fod yn cael ei gynnwys.

Gwybodaeth Cychwyn

I85 A. 38 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 53\(2\)](#)

I86 A. 38 mewn grym ar 17.7.2009 gan [O.S. 2009/1796](#), [ergl. 2\(o\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/08/2011.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Strategaethau cymunedol

39 Llunio strategaeth gymunedol

- (1) Pan fydd cynllunio cymunedol ar gyfer ardal awdurdod lleol wedi cyrraedd y pwynt a ddisgrifir yn is-adran (2), rhaid i'r awdurdod lunio dogfen (y cyfeirir ati yn y Mesur hwn fel “strategaeth gymunedol”) sy'n cynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (3).
- (2) Cyrhaeddir y pwynt y cyfeiriwyd ato yn is-adran (1) pan fo'r awdurdod o'r farn bod maint y consensws ymhlith y partneriaid cynllunio cymunedol a'r awdurdod—
 - (a) ynghylch amcanion strategaeth gymunedol ar gyfer ardal yr awdurdod yn golygu ei bod yn briodol gosod yr amcanion hynny yn y strategaeth gymunedol; a
 - (b) ynghylch y camau sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn cyrraedd yr amcanion hynny yn golygu ei bod yn briodol eu disgrifio yn y strategaeth gymunedol.
- (3) Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y strategaeth gymunedol yw—
